

Cynllun Strategol: Hyrwyddo'r Defnydd o'r Gymraeg yn y Gweithle

Rhagarweiniad: gweledigaeth a nod

Mae *Cynllun Iaith Gymraeg Prifysgol Bangor* (1 Mawrth 2013) yn datgan bod y 'Brifysgol yn cydnabod ei chyfrifoldeb i hybu a hwyluso defnydd o'r Gymraeg ac i greu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg' (paragraff 1.6).

Man cychwyn y cynllun strategol hwn yw dyhead i lawn ystyried un ffaith sylfaenol: mae iaith yn ffenomen gymdeithasol fyw. Mae gennym ystadegau manwl ynglŷn â demograffeg siaradwyr Cymraeg y Brifysgol (faint o staff sy'n rhugl yn y Gymraeg, faint o staff sy'n dysgu Cymraeg, a.y.y.b), ond nid yw'r ystadegau hyn yn dangos faint o Gymraeg sy'n cael ei defnyddio bob dydd yn y sefydliad. Yn ogystal â chadw golwg ar ein demograffeg ieithyddol rhaid i ni hyrwyddo defnydd o'r iaith Gymraeg o ddydd i ddydd. Mae'r cynllun hwn felly yn cyflwyno strategaeth a chanllawiau er mwyn hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle yn y Brifysgol. Mae'n canolbwyntio ar staff (gan gofio bod cynyddu'r defnydd ymhlith staff yn mynd i gyfoethogi profiad myfyrwyr Cymraeg y Brifysgol).

Mae'r cynllun hwn yn awgrymu ein bod ni'n manteisio ar adnoddau presennol y Brifysgol mewn dulliau creadigol newydd a chyflwyno canllawiau i staff a fydd yn fodd i ni hybu a hyrwyddo'r Gymraeg yn ein sefydliad. Mae'r Brifysgol eisoes yn buddsoddi (yn ariannol ac yn yr amser y mae staff yn ei roi i'w gwersi) er mwyn sicrhau bod staff yn cael pob cyfle i ddysgu Cymraeg a gloywi eu Cymraeg, ac felly dylid edrych ar y cynllun strategol hwn fel ffordd o sicrhau bod y sefydliad yn cael y buddiannau mwyaf posibl o'r buddsoddiad hwnnw.

Fe'i cyflwynir mewn ysbryd cadarnhaol gyda golwg ar ddatblygiad staff. Nid yw'n ymdrech i feirniadu a chanfod diffygion, ond yn hytrach yn gynllun a fydd yn helpu staff i ddatblygu eu sgiliau ieithyddol a'u defnyddio'n amlach. Gan fod defnydd iaith yn dibynnu ar yr unigolion sy'n ei siarad, mae natur ac amodau'r defnydd hwnnw yn amrywio o gyd-destun i gyd-destun, ac felly mae hyblygrwydd yn egwyddor sylfaenol a arddelir yma. Mae nifer sylweddol o gynlluniau effeithiol wedi'u treialu yn y Brifysgol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac mae'n bwysig ein bod ni'n dysgu o'r gwersi hyn a pharhau i gydio (neu ailgydio) yn yr arferion da.

Cyd-destun, Cefndir a Chynseiliau

Mae Prifysgol Bangor yn ymfalchïo yn y ffaith mai hi yw'r brifysgol fwyaf Cymraeg yng Nghymru a'r brifysgol fwyaf dwyieithog yn y DU. Yn ogystal ag awydd ac ymrwymiad i chwarae rhan gadarnhaol yn yr ardal leol (gyda mwyafrif o drigolion siroedd Gwynedd ac Ynys Môn yn siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf), mae diwylliant dwyieithog y Brifysgol yn ddolen gyswllt amlwg â phrifysgolion eraill ledled y byd sydd wedi'u lleoli mewn ardaloedd dwyieithog neu amlieithog.

Fodd bynnag, rhaid cydnabod bod pob corff neu sefydliad sy'n ceisio cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ymhlith staff yn wynebu sefyllfa heriol. Mae traddodiadau gwaith, pwysau gwaith, ac yn fwy na dim efallai, diffyg hyder staff – gan gynnwys staff rhugl eu Cymraeg – i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith ar brydiau yn milwrio yn erbyn y defnydd o'r Gymraeg mewn gweithle dwyieithog. Er gwaethaf y sialensiau hyn, fodd bynnag, mae'n rhaid cydnabod bod achos busnes cryf dros hyrwyddo a hwyluso gweithle dwyieithog. Mae'r manteision y mae gweithle dwyieithog yn eu cynnig yn cynnwys:

- hyblygrwydd o ran staffio
- prosesau'n cael eu gweinyddu'n fwy effeithiol (e.e. llai o ddibyniaeth ar gyfieithu)
- cynnydd ym modlonrwydd staff, eu heffeithiolrwydd a'u hymrwymiad i'r sefydliad
- gwell gwasanaethau i'r cwsmer

Y mae'r ffaith bod y Gymraeg yn rhan annatod o weinyddiaeth Prifysgol Bangor yn caniatáu i staff ddatblygu a chynnal sgiliau ac mae dwyieithrwydd y sefydliad yn cyfoethogi profiad ein myfyrwyr a phawb sy'n dod i gysylltiad â'r Brifysgol.

Cyn sefydlu Comisiynydd y Gymraeg (ym mis Ebrill 2012), bu Bwrdd yr Iaith Gymraeg wrthi yn ystod ei blynnyddoedd olaf yn hyrwyddo 'gweithleoedd dwyieithog' fel un o'i brif themâu. Sefydlwyd cronfa grantiau 'Hyrwyddo a Hwyluso Gweithleoedd Dwyieithog' a oedd yn rhoi cyfle i sefydliadau edrych ar ffyrdd o annog eu staff i ddefnyddio'r Gymraeg. Manteisiodd Prifysgol Bangor ar gyfleodd i roi nifer o gynlluniau addawol ar waith yn ystod y blynnyddoedd diwethaf er mwyn datblygu cyfleoedd i staff ddefnyddio'r Gymraeg ac i'w hannog i wneud hynny, yn cynnwys:

- datblygu cyrsiau ymwybyddiaeth iaith
- datblygu hyfforddiant un-i-un i ddefnyddio'r Gymraeg ar y cyfrifiadur
- datblygu gwefan Cymorth Cymraeg
- datblygu cwrs arweinyddiaeth drwy gyfrwng y Gymraeg i reolwyr

Mae'r Cynllun Strategol: Hyrwyddo'r Defnydd o'r Gymraeg yn y Gweithle yn adeiladu ar y sylfaen gref hon.

Ffocws y gwaith

Mae'r Cynllun Strategol hwn yn canolbwyntio ar bedwar maes gwaith penodol, sef:

1. Codi Ymwybyddiaeth
2. Codi Hyder
3. Cynnal mas critigol o beuoedd sy'n gweinyddu drwy'r Gymraeg
4. Adnabod gweithleoedd sy'n gallu elwa o gydweithio dwys â Chanolfan Bedwyr, Tiwtoriaid Cymraeg i Oedolion ac eraill a datblygu seilwaith ymchwil perthnasol

Yng nghyd-destun y ddau faes cyntaf, byddwn yn gweithio ar gynlluniau traws-sefydliadol. Yng nghyd-destun y ddau faes olaf, byddwn yn gweithio ar 'lefel micro' gydag adrannau penodol yn y Brifysgol. Yn hyn o beth, mae'r cynllun hwn yn rhoi cyfle i Brifysgol Bangor dorri tir newydd ym maes gweithleoedd dwyieithog, nid yn unig yng Nghymru ond yn rhyngwladol. Drwy gyfuno arbenigeddau ymchwil ac arbenigeddau yn deillio o waith ymarferol y Brifysgol yn y maes cynllunio iaith a dysgu Cymraeg, ein nod yw datblygu fframwaith gweithredu a modelau cefnogi a fydd yn cynnig arweiniad i sefydliadau eraill sy'n dymuno cynyddu eu capasiti i weithio'n ddwyieithog. Ychydig o waith ymchwil a gwaith ymarferol manwl a thymor hir sydd wedi'i wneud yn y maes hwn ac felly mae yma gyfle i Brifysgol Bangor fynd i'r afael â'r ffactorau sydd yn annog, neu'n rhwystro staff, i siarad Cymraeg a chynnig arweiniad. Er mwyn gwneud hyn, byddwn yn

- (1) Datblygu fframwaith ar gyfer cynllunio tymor hir ar gyfer gwarchod peuoedd sy'n gweinyddu yn y Gymraeg
- (2) Datblygu fframwaith ar gyfer cefnogi a newid arferion defnydd iaith mewn gwahanol adrannau yn y Brifysgol

Mae'r Cynllun Gweithredu sydd yn cyd-fynd â'r ddogfen hon yn manylu ar sut y caiff y weledigaeth a'r strategaeth a amlinellir uchod ei rhoi ar waith.

Mesur Llwyddiant

Bydd llwyddiant y Cynllun Strategol hwn i'w weld yn y *cynnydd o'r defnydd o'r Gymraeg yn y gwaith* gan staff sy'n rhan o'r projectau sy'n deillio o'r cynllun. Drwy gydweithio â'r tîm ymchwil Newid Ymddygiad yn yr Ysgol Seicoleg, bydd targedau penodol a dulliau mesur defnydd o'r Gymraeg yn cael eu datblygu ar lefel projectau, timau ac unigolion.

Yn wir, bydd gallu sefydlu dulliau mesur defnydd o'r Gymraeg a mesur effaith projectau yn arwydd o lwyddiant y cynllun ynddo'i hun. Mae data meintiol ac ansoddol manwl yn brin iawn yn y maes hwn a bydd cyplysu ymchwil ac ymarfer mewn modd sy'n rhoi canlyniadau mesuradwy yn gyfraniad sylweddol gan Brifysgol Bangor i ddatblygu'r maes Cymraeg yn y Gwaith.

Mesur arall o lwyddiant y cynllun fydd ei ddylanwad ar ddulliau gweithredu o fewn y Brifysgol a thu hwnt ym maes Cymraeg yn y gwaith.

Cynllun Strategol Cymreigio'r Gweithle: Cynllun Gweithredu

Maes Gwaith 1: Codi Ymwybyddiaeth

CODI YMWYBYDDIAETH			
Gweithgaredd	I Bwy mae'n berthnasol	Cyfrifoldeb am weithredu	Targedau
Paratoi arweiniad ar weithredu'r Cynllun Iaith	Pawb	Canolfan Bedwyr	Rhoi cyflwyniad i'r Cynllun Iaith mewn fforymau amrywiol bob blwyddyn (e.e. i reolwyr, i staff gweinyddol, i benaethiaid adrannau) gan anelu at 3 chyflwyniad ffurfiol y flwyddyn yn ychwanegol at gynnal y cyflwyniad ar y Cynllun Iaith sy'n rhan greiddiol o'r cynefino misol i staff newydd.
Sicrhau bod staff perthnasol wedi derbyn hyfforddiant ar sut i ymdrin â'r Gymraeg yn ystod y broses recriwtio.	Rheolwyr	Adnoddau Dynol	Cyflwyno hyfforddiant recriwtio
Sicrhau bod hyfforddiant a chanllawiau ar gael fel bod cyfarfodydd dwyieithog yn cael eu cadeirio mewn modd sy'n annog defnydd o'r Gymraeg	Cadeiryddion cyfarfodydd dwyieithog	Canolfan Bedwyr ac Adnoddau Dynol	Cyflwyno hyfforddiant a chynnig arweiniad ar gadeirio dwyieithog
Sefydlu rhwydwaith o 'Bencampwyr Iaith' mewn adrannau a cholegau	Rheolwyr i ddewis unigolyn sydd yn fodlon bod yn gyfrifol am	Canolfan Bedwyr a rheolwyr yn y Colegau / Adrannau	Sefydlu'r rhwydwaith wrth i'r Strategaeth Cymreigio'r Gweithle gael ei lansio. Cynnal

	<p>hyrwyddo'r Gymraeg yn eu hysgol / coleg / adran. Ffocws ymarferol (yn hytrach na strategol) fyddai i'r rôl yma: e.e. rhoi gwybod am ddigwyddiadau Cymraeg, cyfleoedd hyfforddiant, helpu gyda mentora, cynnal ambell sesiwn sgwrs, dosbarthu bathodynnau Iaith Gwaith ayb.</p>		<p>2 gyfarfod y flwyddyn o'r Rhwydwaith Pencampwyr.</p>
Ffair Swyddi Cymraeg	Staff sy'n dysgu a myfyrwyr	Canolfan Bedwyr ac UMCB	<p>Cynnal y Ffair yn flynyddol. Er mai myfyrwyr yw ffocws y digwyddiad hwn, mae'n ddigwyddiad sy'n codi ymwybyddiaeth ar draws y sefydliad o bwysigrwydd y Gymraeg yn y gweithle a pharatoi myfyrwyr ar gyfer y cyfleoedd sydd ar gael iddynt.</p>

Maes Gwaith 2: Codi Hyder

CODI HYDER			
Gweithgaredd	I Bwy mae'n berthnasol	Cyfrifoldeb am weithredu	Targedau
Gwersi Iaith	Pawb	Tiwtor Cymraeg i Staff a Canolfan Bedwyr	Parhau i gynnal y ddarpariaeth lawn ac amrywiol sydd ar gael ar bob lefel.
Cymwysterau Cymraeg yn y Gwaith	Pawb	Tiwtor Cymraeg i Staff a Canolfan Bedwyr	Parhau i ddatblygu cymwysterau Cymraeg yn y gwaith ar wahanol lefelau.
Y Gymraeg ac Adnoddau Cyfrifiadurol	Pawb	Canolfan Bedwyr	Canolfan Bedwyr i gynllunio a chynnig hyfforddiant un-i-un wrth y ddesg i aelodau o staff sy'n dymuno defnyddio mwy o Gymraeg ysgrifenedig.
Mentora	Pawb	Canolfan Bedwyr, Cymraeg i Oedolion, Adnoddau Dynol	Datblygu rhwydwaith o fentoriaid sy'n awyddus i gynorthwyo staff i ddatblygu eu defnydd o'r Gymraeg. Peilota'r cynllun yn y Llyfrgell a recriwtio a hyfforddi mentoriaid ar gyfer ymestyn y cynllun yn ehangach.
Canllawiau ar gyfer siaradwyr o bob lefel i'w cynorthwyo i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle ac i annog eraill i wneud hynny hefyd:	Pawb	Canolfan Bedwyr, Tiwtor Cymraeg i Staff, Canolfan Cymraeg i Oedolion	Llunio canllawiau ar gyfer pob un o'r grwpiau hyn o staff yna: <ul style="list-style-type: none"> Gosod y canllawiau ar wefan Cymorth Cymraeg

<p>1) Siaradwyr Cymraeg Rhugl Hyderus.</p> <p>2) Siaradwyr Cymraeg rhugl nad ydynt yn hyderus, siaradwyr lled-rugl, a siaradwyr goddefol</p> <p>3) Dysgwyr Cymraeg</p> <p>4) Unigolion cwbl ddi-Gymraeg</p>			<ul style="list-style-type: none"> • Trafod y canllawiau mewn dosbarthiadau iaith, sesiynau ymwybyddiaeth ayb. • Rhoi gwybod i staff am y canllawiau trwy'r Rhwydwaith Pencampwyr.
Gwefan Cymorth Cymraeg	Pawb	Canolfan Bedwyr	Parhaol: datblygu'r wefan i gynnwys canllawiau ac arfer da sy'n berthnasol i'r cynllun hwn, yn enwedig y gweithgareddau 'Codi Hyder' a restrir uchod.
Codi Ymwybyddiaeth Staff sy'n siarad Cymraeg o anghenion staff sy'n dysgu Cymraeg	Pawb	Canolfan Bedwyr, Cymraeg i Oedolion a Datblygu Staff	Parhaol drwy wahanol gynlluniau (e.e. y cynllun mentora uchod).
Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg trwy sesiynau 'anffurfiol'	Pawb	Cymraeg i Oedolion, Canolfan Bedwyr, Pontio	Parhau â'r sesiynau sydd eisoes mewn lle ac adnabod cyfleoedd newydd – e.e. drwy wneud defnydd blaengar o ofodau / digwyddiadau yn Pontio.

Maes Gwaith 3: Cynnal mas critigol o beuoedd sy'n gweinyddu'n Gymraeg

CYNNAL MAS CRITIGOL O BEUOEDD SY'N GWEINYDDU'N GYMRAEG			
Gweithgaredd	I Bwy mae'n berthnasol	Cyfrifoldeb am weithredu	Targedau
<p>Un o brif feincnodau hyfywdra unrhyw iaith mewn unrhyw gymuned yw'r graddau y mae'n cael ei defnyddio fel prif iaith mewn gwahanol gyd-destunau neu beuoedd. Mae rhai sosioieithyddwyr a chynllunwyr iaith yn cyfeirio at y peuoedd hyn fel mannau lle y gall iaith leiafrifol atgyfnerthu a/neu fel peuoedd lle y gall siaradwr iaith leiafrifol fynd gyda'r sicrwydd y bydd ei ddewis iaith yn cael ei siarad yno.</p> <p>Drwy weithredu'r Cod Ymarfer ar Benodi'n Unol â'r Cynllun iaith a thrwy gynnig cefnogaeth benodol i gynnal y Gymraeg mewn peuoedd arbennig, bydd y Brifysgol yn sicrhau'r gallu i ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol drwy'r amser mewn rhai swyddfeydd.</p>	<p>Mae enghreifftiau o swyddfeydd sy'n gweinyddu drwy'r Gymraeg yn cynnwys Canolfan Bedwyr, Canolfan Cymraeg i Oedolion, Pontio, Cysylltiadau Corfforaethol a Marchnata, rhai elfennau o'r Ysgol Cerddoriaeth, Synnwyr Busnes.</p>	<p>Dirprwy Is-Ganghellor gyda chyfrifoldeb dros y Gymraeg, Adnoddau Dynol</p>	<p>Parhaol</p> <p>Yng nghyd-destun y targed hwn, byddai cyfle i staff sy'n dymuno trochi eu hunain mewn awyrgylch gwaith cyfrwng Cymraeg er mwyn gwella eu sgiliau iaith dreulio ychydig ddyddiau yn swyddfa Canolfan Bedwyr.</p>
<p>Cynllunio yn hir dymor ar gyfer hyfywedd y Gymraeg ymhlith staff y Brifysgol. Dadansoddi data staffio er mwyn adnabod risgiau a</p>	<p>Pawb</p>	<p>O dan gadeiryddiaeth y Dirprwy Is-Ganghellor Cyfrwng Cymraeg, sefydlu grŵp goruchwylio a fydd yn cynllunio</p>	<p>Y Grŵp i gyfarfod am y tro cyntaf ym mis Medi 2015.</p>

<p>chyfleodd o ran capasiti dwyieithog.</p>		<p>capasiti dwyieithog yn y tymor canolig a'r tymor hir. Bydd y grŵp hwn wedi'i lywio gan yr adran Adnoddau Dynol a bydd yn edrych hyd at 10 mlynedd ymlaen ar y newidiadau demograffeg sy'n debygol o ddylanwadu ar gapasiti staffio dwyieithog y Brifysgol. Un o swyddogaethau'r grŵp fydd cynllunio – e.e. ar sail grwpiau galwedigaethol – sut i ymateb i newidiadau tebygol yn y gweithlu.</p>	
---	--	---	--

Maes Gwaith 4: Adnabod gweithleoedd sy'n gallu elwa o gydweithio dwys â Chanolfan Bedwyr, Tiwtoriaid Cymraeg i Oedolion ac eraill a datblygu seilwaith ymchwil perthnasol

PROSIECTAU LEFEL MICRO GYDAG ADRANNAU UNIGOL A GWAITH YMCHWIL PERTHNASOL			
Gweithgaredd	I Bwy mae'n berthnasol	Cyfrifoldeb am weithredu	Targedau
Ar y cyd â thimau ymchwil perthnasol, yn enwedig y Ganolfan Newid Ymddygiad, cynllunio a gweithredu cynlluniau i gynyddu hyder staff, o bob lefel gallu iaith, i ddefnyddio'r Gymraeg.	Gweithleoedd sydd wedi'u hadnabod fel manau penodol a all elwa o gydweithio dwys gyda Chanolfan Bedwyr a'r Ganolfan Cymraeg i Oedolion.	Dirprwy Is-Ganghellor gyda chyfrifoldeb dros y Gymraeg, Canolfan Bedwyr.	Cynnal prosiect peilot yn Llyfrgell y Brifysgol yn 2015/16.
O 2015/16 bydd myfyriwr PhD wedi'i ariannu gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn gweithio ar brosiect ym maes Newid Ymddygiad a Chynllunio iaith. Bydd y gwaith hwn yn bwydo'n uniongyrchol i ddatblygiad y strategaeth hon.	Ysgol Seicoleg a Chanolfan Bedwyr	Tîm goruchwyllo a'r myfyriwr PhD.	Dechrau'r PhD ym mis Hydref 2015
Cynnal Symposiwm Rhyngwladol yn gwahodd trafodaeth rhwng arbenigwyr ar gynllunio iaith, dysgu iaith a newid ymddygiad i drafod sut mae troi siaradwyr goddefol yn siaradwyr gweithredol.	Arbenigwyr a wahoddir i'r symposiwm	Dirprwy Is-Ganghellor gyda chyfrifoldeb dros y Gymraeg.	Cynnal y symposiwm ym mis Rhagfyr 2015
Cynnal cynhadledd genedlaethol ar	Staff Prifysgol Bangor a	Canolfan Bedwyr	Cynnal y gynhadledd ym mis

Ddefnyddio'r Gymraeg yn y Gweithle. Bydd y gynhadledd yn dwyn ynghyd weithleoedd ledled Cymru ac ar draws sectorau i drafod ymyriadau sydd wedi newid ymddygiad ieithyddol staff yn y gweithle.	Gweithleoedd ledled Cymru		Hydref / Tachwedd 2015
---	---------------------------	--	------------------------